MADE CYMRU
ASTUDIAETH ACHOS

MADE



# Lowri Roberts
## MSc Rheoli Arloesedd

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund






**Manylion am Lowri**

Mae Lowri Roberts yn Arbenigwr Datblygu Busnes a Marchnata sy'n gweithio i Antur Cymru drwy gytundeb Busnes Cymru. Yn breifat, mae hi hefyd yn darparu gwasanaethau ymgynghori strategaeth farchnata. Mae Lowri ar hyn o bryd yn astudio ar gyfer MSc mewn Rheoli Arloesedd yn MADE Cymru.

antur cymru enterprise

Busnes Cymru | Business Wales

Ym mis Tachwedd 2022, gwahoddwyd Lowri i roi cyflwyniad yng Nghynhadledd y Gymdeithas Ryngwladol ar gyfer Rheoli Arloesedd Proffesiynol (ISPIM) yn Athen, Gwlad Groeg. Bu'n cydweithio gydag Alan Mumby, Graham Howe, a chyn-ddarlithydd MADE Cymru Jaymie Phillips ar gyflwyniad o'r enw "Esblygiad Cyrsiau Rheoli Arloesedd ar gyfer Twf Busnes."

Roedd y cyflwyniad yn trafod esblygiad cwrs meistr a ddyluniwyd yn wreiddiol i uwchsgilio'r sector gweithgynhyrchu yng Nghymru er mwyn creu cwrs sy'n gwella dealltwriaeth a gwybodaeth am reoli arloesedd a datblygu cynnyrch newydd ar gyfer gweithwyr busnes proffesiynol ar hyd a lled Cymru. Roedd y cyflwyniad hefyd yn tynnu sylw at apêl ehangach a chymhwysiad rheoli arloesi y tu hwnt i'r sector gweithgynhyrchu.




### Allwch chi egluro rhyw ychydig am eich swydd bresennol?

Cyn ymuno ag Antur, rwy' wedi dilyn gyrfa fasnachol amrywiol, lle cefais fy anfon i wahanol adrannau a oedd yn gofyn am fy sgiliau mewn gwytnwch, rheoli perthnasoedd, a datrys problemau. Mae fy ngallu i siarad mewn cynadleddau yn y DU ac Ewrop ar byngciau perthnasol wedi fy ngalluogi i gefnogi cleientiaid a busnesau trwy heriau amrywiol trwy ddefnyddio fy arbenigedd mewn cyllid, gweithrediadau, logisteg, marchnata, AD, trosglwyddo gwybodaeth, a pherthnasoedd partner.

Yn fy rôl yn Antur, rwy'n gweld fy hun fel hwylusydd neu gysylltydd sy'n dysgu ac yn cymhwyso gwybodaeth yn gyson mewn busnes. Rwy'n mwynhau mentora cleientiaid sy'n cael trafferth gyda marchnata digidol a chynaliadwyedd, sy'n byngciau perthnasol a chyfredol. Fel cynghorydd busnes, mae'n hanfodol fy mod yn parhau i gael y wybodaeth ddiweddaraf a'm bod yn wybodus, a dyna pam y cofrestrais ar y cwrs MSc mewn Rheoli Arloesedd.

Enghraifft ddiweddar o'm gwaith a sut y bu i mi gefnogi cleient oedd pan gafodd y cleient hwnnw gais i gyflenwi 15,000 o gynnyrch a hynny o fewn amserlen benodol, ac roedd yn rhaid i'r cynnyrch fodloni meini prawf cynaliadwyedd. Roedd y cleient yn poeni am y broses a darpariaeth lwyddiannus, felly fe ofynnon nhw am fy nghefnogaeth. Gan fy mod yn gyfarwydd â'r cleient ac wedi ei gefnogi o'r cychwyn cyntaf, bu modd i fi estyn llaw gyda'r dasg o ddatblygu cynllun proses oedd yn galluogi'r cleient i gyflawni'r canlyniadau gofynnol.

### Pam wnaethoch chi benderfynu dilyn y cwrs MSc Rheoli Arloesedd?

Rwy'n berson chwilfrydig sy'n mwynhau dysgu a gwthio fy hun i gyflawni mwy, yn broffesiynol ac yn bersonol fel ei gilydd. Roedd cydweithiwr wedi rhannu gwybodaeth am MADE Cymru drwy ein mewnrwyd, ac fe daniodd hyn fy chwilfrydedd, felly estynnais allan at Alan Mumby am fwy o wybodaeth. Ar ôl siarad ag Alan, roedd y rhaglen wedi gafael ynof. Ymrestrodd fy mhartner Nick Palmer, sy'n gweithio yn yr un sector, yn y rhaglen hefyd, gan ein bod o'r farn y byddai'n gyfle gwych inni ddysgu a thrafod diddordebau sy'n gyffredin i ni.

**Pa heriau oeddech chi'n eu hwynebu'n broffesiynol roeddech chi'n meddwl y gallai'r cwrs fynd i'r afael â nhw?**

Yn y busnesau rwy'n gweithio gyda nhw, rwy'n aml yn dod ar draws datgysylltiad rhwng cynhyrchion, prosesau a phobl. Rwy'n aml yn gweithredu fel cyswllt rhwng datblygiad a thwf trwy ofyn cwestiynau ac awgrymu prosesau amgen. Roeddwn yn gobeithio y byddai'r cwrs yn cynnig methodolegau newydd i mi i gefnogi busnesau er mwyn datblygu NPD neu symud i farchnadoedd rhyngwladol drwy greu dulliau gweithio cydlynol a chydweithredol.

Mae gennyf ddiddordeb mawr hefyd yn yr economi gylchol ac Adnoddau Dynol cylchol, gan fy mod yn credu bod unigolion sy'n cael eu datblygu'n barhaus yn fwy buddiol mewn perthynas â chanlyniadau busnes.

**Ym mha ffordd mae'r cwrs wedi cael effaith arnoch chi a'ch busnes hyd yn hyn?**

Wrth i'r cwrs fynd yn ei flaen, es ati i ddatblygu fy rhwydwaith, fy mhroses feddwl ryngwladol, a'm meddwl strategol. Roeddwn i'n arfer meddwl bod gen i afael go dda ar farchnata strategol, ond mae'r ymchwil i sefydliadau mwy, biometreg, economïau sy'n dod i'r amlwg, a'r cyfle i ymgysylltu ag arweinwyr busnes o bob rhan o'r byd wedi fy ngalluogi i ddefnyddio dull mwy academaidd o feddwl am arloesi a'i roi ar waith ym mhob rhan o'm sefydliad.

Rwy'n defnyddio'r sgiliau hyn bob dydd ac yn ddiweddar rwyf wedi helpu cleient preifat i lywio taith sero net a thyfu ei fusnes ar ôl yr heriau a ddaeth yn sgil Covid-19.

# 'Datblygais fy rhwydwaith, fy mhroses feddwl ryngwladol, a'm meddwl strategol'.

~ Lowri Roberts

**Beth ydych chi wedi'i fwynhau am y cwrs?**

Yr hyn roeddwn i'n ei fwynhau fwyaf am y cwrs oedd dod o hyd i fentor yn Alan. Mae'n wybodus, yn ddiddorol, ac yn un â'i draed ar y ddaear a chanddo straeon gwych i'w rhannu.

Roeddwn hefyd wrth fy modd â'r diddordeb gafodd ei ailgynnau ynof mewn darllen a ysgogwyd gan y cwrs. Fy hoff fodiwlau oedd Arloesedd Rhyngwladol, Datblygu Cynnyrch Newydd, a Diwydiant 4.0. Roedd y tiwtoriaid a'r siaradwyr ar y cwrs hwn yn wych.

Yn olaf, mwynheais y grŵp cyfoedion. Rwyf wedi bod mewn gweithgorau gydag amrywiaeth helaeth o fyfyrwyr ac wedi elwa o'u gwybodaeth a'u profiadau. Fe wnaethom ni ffurfio grwpiau astudio WhatsApp ar gyfer cydgymorth ac mae llawer ohonom ni'n dal i gadw cyswllt. Mae hyn wedi fy ngalluogi i ddefnyddio eu profiadau o'r cwrs i lunio fy nghyflwyniad ar gyfer Athen, ac maen nhw wedi bod yn eithriadol hael gyda'u hadborth a'u hamser.

**Cyn dilyn y cwrs hwn, pryd a ble wnaethoch chi astudio'n ffurfiol ddiwethaf?**

Cyn y cwrs hwn, roeddwn i'n gorffen fy CIPD Lefel 7 mewn AD ac yn dilyn cwrs byr Cyflwyniad i Arloesedd ar yr un pryd, ac fe gwblhawyd y ddau gwrs trwy ddysgu o bell.

**Beth sydd nesaf yn eich hanes pan fyddwch chi'n cwblhau'r cwrs?**

Pan fyddaf yn cwblhau'r cwrs, rwy'n bwriadu parhau i adeiladu ar y sgiliau a'r rhwydweithiau rydw i wedi'u creu yn y broses arloesi. Rwy’ wedi fy nghyfareddu gan strategaeth Arloesi a'i gwybodaeth a fframweithiau academaidd cysylltiedig, a sut y gellir eu cymhwyso trwy gydweithio rhwng sefydliadau a busnesau (sy'n her fyd-eang).

Rwy’n gobeithio rhannu fy nealltwriaeth o’r piler a’r is-bileri Soffistigeiddrwydd Busnes a chefnogi twf y perthnasoedd rhwng sefydliadau a busnesau a’u helpu i ehangu eu gwybodaeth am yr hyn yw arloesedd a sut i gymhwyso hyn yn eu strategaethau busnes.

Rwy’ hefyd yn gobeithio cynnal a meithrin fy mherthynas â chymheiriaid academaidd a diwydiant ar draws y byd a hynny trwy gydweithio, gan fy mod yn credu bod hyn yn hanfodol er mwyn cael persbectif eang. Croesawodd ISPIM fi gyda breichiau agored ac roedd yr adborth ar fy nghyflwyniad yn gadarnhaol, gan gynnig rhyngweithio pellach. Rwy’n gobeithio ymweld ag astudiaethau pellach er budd fy musnesau yng Nghymru, a phwy a ŵyr, efallai bydd PhD yn galw!




I gael gwybod mwy am gyrsiau Rheolaeth Arloesedd ac Uwchsgilio ar gyfer Diwydiant 4.0 MADE Cymru, ewch i **https://www.madecymru.co.uk/cy/**

**01792 481199**
**MADE@uwtsd.ac.uk**

Ariennir MADE Cymru gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop trwy ywodraeth Cymru. Cyflwynir ac ardystiwyd gan Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.